



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cymrawd Cyswllt

Canllaw i Ganolwyr wrth ysgrifennu
Datganiad Cefnogol

Addaswyd ar sail canllawiau AdvanceHE

Cymrodoriaeth Gyswllt; Canllawiau ar gyfer Canolwyr

Diolch am gytuno i ddarparu Datganiad Cefnogol ar gyfer cymeradwyo cais ar gyfer Cymrodoriaeth Gyswllt. Cynlluniwyd y canllawiau yma a'r templed cysylltiedig (**dogfen Word ar wahân**) i'ch helpu i strwythuro eich datganiad cefnogol er mwyn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Swyddfa Academaidd fel rhan o'r Cynllun DDP PCYDDS, fel yr eglurir isod.

Beth yw diben y Datganiad Cefnogol?

Noder nad yw datganiad canolwr sy'n cefnogi'r cais hwn ar gyfer Cymrodoriaeth Gyswllt yr un peth â geirda ar gyfer cais am swydd. Seilir gwobrwyo Cymrodoriaeth Gyswllt ar gydnabyddiaeth o arferion proffesiynol gan gymheiriaid ac o ganlyniad gofynnir i chi gefnogi'r cais hwn fel cymheiriad gwerthfawr â phrofiad ym maes dysgu ac addysgu ym myd addysg uwch (AU).

Yn ystod y broses adolygu ar gyfer Cymrodoriaeth Gyswllt defnyddir y Datganiad Cefnogol a gyflwynir gan y canolwr i gadarnhau fod y cais yn adlewyrchiad cywir o arferion addysg uwch yr ymgeisydd.

Ai fi yw'r person cywir i gyflwyno Datganiad Cefnogol ar gyfer yr ymgeisydd?

Disgwylir fod gennych brofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn addysg uwch a'ch bod fel arfer yn ddeiliad un o'r pedwar categori Cymrodoriaeth, er nad yw hyn yn gwbl angenrheidiol.

Byddwch wedi gweithio'n agos gyda'r ymgeisydd, a bydd gennych wybodaeth uniongyrchol o'u harferion AU proffesiynol ac mewn sefyllfa i gynnig sylwadau a chadarnhau cofnod effeithiolrwydd yr ymgeisydd o fewn y cyd-destun y maent yn addysgu a/neu gefnogaeth ddysgu. Dylech fedru cadarnhau fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno eu harferion yn gywir a chynnig eich barn ynghylch y modd y maent wedi dangos gofynion meini prawf Disgrifydd 1 **Fframwaith Safonau Proffesiynol 2011 y DU** (FfSP).

Seilir y cais am Gymrodoriaeth Gyswllt (CGAAU) ar arferion AU cyfredol a diweddar (fel arfer o fewn y 3 mlynedd olaf). Os nad ydych bellach yn gweithio gyda'r ymgeisydd, mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â'u harferion diweddar. Gofynnir i chi yn y templed i nodi pa mor hir yr ydych wedi cydweithio.

Noder y dylai Datganiadau Cefnogol ar gyfer Cymrodoriaeth Gyswllt adlewyrchu perthynas proffesiynol; h.y. nid wrth aelodau o'r teulu neu ar sail cyfeillgarwch personol. Y datganiad fydd eich cyfrif annibynnol a gwir chi i gefnogi'r cais

Os ydych yn teimlo, o ddarllen y canllawiau yma, nad ydych mewn sefyllfa i gyflwyno Datganiad Cefnogol yna dylech wrthod y cais.

Y gofynion ar gyfer Disgrifydd 1 Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2011

Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o effeithiolrwydd o safbwynt eu rôl/rolau AU proffesiynol, a fydd yn cynnwys o leiaf rywfaith o addysgu a/neu gyfrifoldebau cefnogi dysgu. Gellir ymgymryd â'r arferion addysgu a dysgu yma weithiau gyda chymorth athrawon neu fentoriaid mwy profiadol.

Mae'n ofynnol fod yr holl brofiadau a'r dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn y cais yn ymwneud â darpariaeth AU megis:

lefel 4 neu uwch o fewn **Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)** yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, neu [HYPERLINK "https://www.heacademy.ac.uk/download/eligibility-hea-fellowship-february-2018"](https://www.heacademy.ac.uk/download/eligibility-hea-fellowship-february-2018) \h **gyfatebol**;

lefel 7 neu uwch o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF) yn yr Alban ar y Fframwaith Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch (FQHEIS) neu **gyfatebol**;

cylch cyntaf neu uwch o fewn Fframwaith Cymwysterau ym Maes Addysg Uwch yn Ewrop (QF-EHEA);

lefel 5 neu uwch o fewn Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF) neu **gyfatebol**;

lefel 5 neu uwch o fewn Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd neu **gyfatebol**;

fframweithiau addysg uwch cyfatebol eraill;

gweithgareddau'n seiliedig ar gefnogi myfyrwyr o fewn y cyd-destun addysg uwch, cyn belled â bod y myfyriwr/myfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer Cymhwyster Addysg Uwch, y gellir eu hystyried fel tystiolaeth sy'n cyfateb â'r fframweithiau addysg uwch uchod;

gellir ystyried cyflwyno datblygiad proffesiynol parhaus anachrededig ar gyfer staff academiaidd a chefnogi dysgu hefyd fel tystiolaeth sy'n cyfateb i

Fel arfer, mae'r rhai sy'n debygol o allu cynnig tystiolaeth o Ddisgrifydd 1 yn cynnwys:

- Ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a chanddynt rai cyfrifoldebau addysgu (e.e. myfyrwyr PhD, Cynorthwywyr Dysgu Graddedig (CDG), ymchwilwyr dan gytundeb/ymchwilwyr ôl-ddoethurol, ayb);
- Staff sy'n newydd i addysgu ym maes AU (yn cynnwys y rhai a chanddynt gyfrifoldebau academiaidd rhan amser);
- Staff sy'n cefnogi darpariaeth academiaidd (e.e. technolegwyr dysgu, datblygwyr dysgu a staff adnoddau dysgu/llyfrgell);
- Staff sy'n ymgymryd â rôl arddangoswyr/technegwyr sy'n cynnwys rhai cyfrifoldebau'n ymwneud â dysgu;
- Staff profiadol mewn meysydd AU perthnasol a allai fod yn newydd i fyd addysgu a/neu gefnogi dysgu, neu a chanddynt bortffolio dysgu cyfyngedig.

Er gwybodaeth i chi, nodir meini prawf yr UKPSF ar gyfer Disgrifydd isod:

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o agweddau penodol o ddysgu effeithiol a/neu dulliau cefnogi a dysgu myfyrwyr.

Dylai unigolion allu darparu tystiolaeth o:

Ymwneud llwyddiannus ag o leiaf ddau o'r pum Maes Gweithgaredd (A1-A5)

- A1 Dylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu a/neu raglenni astudio
- A2 Addysgu a/neu gefnogi dysgu
- A3 Asesu a rhoi adborth i ddysgwyr
- A4 Datblygu amgylcheddau a dulliau dysgu effeithiol ar gyfer cefnogi a chynnig arweiniad i fyfyrwyr
- A5 Ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus mewn pynciau/disgyblaethau a'u pedagogeg, gan gynnwys ymchwil, ysgoloriaethau a gwerthuso arferion proffesiynol

I. Ymwneud llwyddiannus mewn dulliau dysgu ac arferion addas sy'n gysylltiedig â'r Meysydd Gweithgaredd

- **Gwybodaeth Graidd Briodol a dealltwriaeth o K1 a K2 o leiaf**
- K1 Deunydd y pwnc The
- K2 Dulliau addysgu, dysgu ac asesu addas yn y meysydd pwnc ac ar lefel y rhaglen academaidd
- K3 Sut mae myfyrwyr yn dysgu, yn gyffredinol ac o fewn eu maes neu feysydd pwnc/disgyblaeth
- K4 Defnydd a gwerth technolegau dysgu priodol
- K5 Dulliau gwerthuso effeithiolrwydd dysgu
- K6 Oblygiadau gwarantu ansawdd a gwella ansawdd o safbwynt arferion academaidd a phroffesiynol gan ganolbwyntio'n arbennig ar addysgu

II. Ymrwymiad i Werthoedd Proffesiynol addas wrth hwyluso dysgu eraill

- V1 Parchu dysgwyr unigol a chymunedau dysgu amrywiol
- V2 Hybu ymgysylltiad mewn addysg uwch a chyfluoedd cyfartal ar gyfer dysgwyr
- V3 Defnyddio dulliau a seiliwyd ar dystiolaeth a chanlyniadau gwaith ymchwil, ysgoloriaethau a datblygiad proffesiynol parhaus
- V4 Cydnabod y cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu o'i fewn gan gydnabod oblygiadau arferion proffesiynol

III. Arferion proffesiynol perthnasol, ymchwil pwnc a phedagogiaidd a / neu ysgoloriaethau o fewn y gweithgareddau uchod

IV. Ymwneud yn llwyddiannus, lle bo hynny'n briodol, â gweithgaredd datblygiad proffesiynol yng nghyswllt cyfrifoldebau addysgu, dysgu ac asesu

Felly, er mwyn derbyn Cymrodoriaeth Gyswllt, mae'n rhai i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o **ddau** o'r pum Maes Gweithgaredd ar sail eu harferion AU, agweddau o Wybodaeth Graidd (yn cynnwys K1 a K2), a Gwerthoedd Proffesiynol priodol o'r FfSP.

Paratoi ar gyfer ysgrifennu eich Datganiad Cefnogol

Mae angen i'r ymgeisydd yn gyntaf gyflwyno eu Hadroddiad o Arferion Proffesiynol (AAP) i chi. Darllenwch yr adroddiad hwn **cyn** i chi ddechrau ysgrifennu eich Datganiad Cefnogol i wirio cywirdeb. Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cyfeirio at y **wefan** am wybodaeth bellach am AdvanceHE a/neu'n benodol am fod yn **Gymrawd Cyswllt**.

Fformat y Datganiad Cefnogol

Darperir templed er mwyn i chi allu cwblhau eich Datganiad Cefnogol. Caiff copi o'r templed ei roi i chi gan yr ymgeisydd fel dogfen Word ar wahân. Mae'r templed ar gael ar ffurf dogfen Word a dylid ei gwblhau yn y fformat hwn. Ni ellir derbyn dogfennau wedi eu sganio na rhai sy'n cynnwys delweddau wedi eu sganio.

Yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer Disgrifiydd 1, fel canllaw, mae'n bwysig eich bod yn cynnig sylwadau am y canlynol yn eich Datganiad Cefnogol:

- eich profiad chi eich hun o arferion AU diweddar yr ymgeisydd;
- os ydych wedi bod yn ymwneud ag arsylwi cymheiriaid ar addysgu a/neu gefnogaeth dysgu'r ymgeisydd, a fyddech cystal â nodi enghreifftiau o hynny;
- unrhyw arferion da neu arloesol a/neu gyfraniad i ddatblygiadau addysgu a/neu gefnogi dysgu gan yr ymgeisydd o fewn eu disgyblaeth fel yn briodol;
- eich safbwynt am yr enghreifftiau ymarferol a ddarparwyd o fewn y cais i ddangos gofynion y Gymrodoriaeth Gyswllt.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf ac nad oes modd i chi ddarparu Datganiad Cefnogol yn Gymraeg neu Saesneg, mae'r Swyddfa Academaidd yn barod i dderbyn cyfieithiad Cymraeg neu Saesneg ardystiedig o'ch datganiad. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu'r cyfieithiad ardystiedig ar gyfer yr ymgeisydd a bydd angen i chi gytuno a derbyn Datganiad Dilysu o'i gwblhau.

Wedi cwblhau eich Datganiad Cefnogol

Cyn gynted ag y byddwch wedi cwblhau'r templed Datganiad Cefnogol, a fyddech cystal â'i ddychwelyd i'r ymgeisydd ar ffurf Word. Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno eich Datganiad Cefnogol ochr yn ochr â'i ffurflen gais.

Y Broses Sicrhau Ansawdd

Fel rhan o'r broses, gofynnir i chi gadarnhau mai chi sydd wedi ysgrifennu'r Datganiad Cefnogol.

Cysylltwch â ni

fellowship@advance-he.ac.uk

+44 (0)1904 717683 neu +44 (0)1904 717663

<https://www.advance-he.ac.uk/fellowship>

INCLUDEPICTURE

"/var/folders/0q/1wjsy_494gx5yd7xxhfzvqhmqm0000gn/T/com.microsoft.Word/WebArchiveCopy PasteTempFiles/81609.png" * MERGEFORMATINET in f @AdvanceHE

Mae AdvanceHE yn galluogi rhagoriaeth mewn addysg uwch, gan helpu i lywio'i ddyfodol. O fewn y DU ac yn fyd eang, mae AdvanceHE yn cefnogi sefydliadau mewn meysydd rhagoriaeth o fewn byd addysg, arweinyddiaeth drawsffurfiol, tegwch a chynhwysiant a llywodraethiant effeithiol. Cyflawnir hyn drwy fanteision aelodaeth (yn cynnwys achrediad addysgu, siarteri cydraddoldeb, ymchwil, gwybodaeth ac adnoddau), rhaglenni a digwyddiadau, Cymrodoriaethau, gwobrau, gwasanaethau ymgynghori a gwella ac arolygon myfyrwyr.

©2020 AdvanceHE. Cedwir bob hawl.

Ni ellir ailgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r ddogfen hon mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, electronaidd neu fecanyaidd, yn cynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio neu adalw heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint. Fe'i defnyddir yn unig gan sefydliadau achrededig sy'n aelodau o AdvanceHE ac ymgeiswyr cymrodoriaeth uniongyrchol. Gofynnir i'r gydnabyddiaeth briodol gael ei rhoi i AdvanceHE:

Mae gan y sefydliadau achrededig sy'n aelodau o AdvanceHE yr hawl i ddefnyddio ac addasu'r ddogfen hon yn unig ar gyfer defnyddio'u darpariaeth achrededig gan AdvanceHE; a

Gall ymgeiswyr Cymrodoriaeth Uniongyrchol lawrlwytho'r ddogfen hon er mwyn creu a cyflwyno cais i AdvanceHE ar gyfer Cymrodoriaeth

Mae Advance HE yn gwmni cyfygnedig drwy warant a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru dan y rhif 049313031. Cofrestrwyd fel elusen yn Lloegr a Chymru, rhif 1101607. Cofrestrwyd fel elusen yn yr Alban, rhif SC043946. Ni ddylid defnyddio geiriau na logo AdvanceHE heb ein caniatâd. Rhif TAW cofrestredig GB 152 121950

Ceir copïau o'r adroddiad hwn ar ffurf print bras neu fformat gwahanol ar gais, drwy gysylltu â Thîm Marchnata a Chysylltiadau AdvanceHE:

+44 (0) 3300 416201 neu publications@advance-he.ac.uk